Estyn



# **Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr** ar Ysgol Gynradd Y Felinheli

## Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2023

gan Estyn, Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

# Trosolwg

Mae Ysgol y Felinheli yn gymuned ofalgar a chroesawgar sy'n darparu cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ddysgu am eu hardal, eu diwylliant a'u treftadaeth yn ogystal â'r byd ehangach. Mae arweinwyr yn rhoi pwyslais cadarn ar ddiogelu disgyblion a hyrwyddo'u lles yn effeithiol. Rhoddir sylw teilwng i barchu amrywiaeth o fewn ei chymuned.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol ac yn gwneud cynnydd cadarn o'u mannau cychwyn. Maent yn teimlo bod yr holl staff yn gofalu'n arbennig o dda amdanynt, a'u bod yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymgymryd ag ystod o weithgareddau cyfoethog a diddorol. Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda ac maent yn dangos cymhelliant cryf a diddordeb chwilfrydig yn eu dysgu.

Mae cwricwlwm yr ysgol yn cynnig ystod eang o brofiadau diddorol ac ysgogol. Nodwedd gref o'r ddarpariaeth yw'r dulliau effeithiol mae'r staff yn eu defnyddio i gynnig profiadau creadigol cyfoethog i'r disgyblion, sy'n plethu sawl agwedd o'r cwricwlwm. O ganlyniad, mae medrau artistig a chreadigol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn ac maent yn ymfalchïo yn y cyfleoedd a gânt i rannu'r gwaith yn y gymuned leol. Mae'r gweithgareddau dysgu yn effeithiol wrth gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau llythrennedd, rhifedd a digidol yn llwyddiannus. Er hyn, nid yw'r athrawon bob amser yn cynllunio gweithgareddau sy'n ymestyn y disgyblion hŷn hyd orau eu gallu. Mae athrawon yn rhannu bwriadau dysgu a meini prawf llwyddiant â disgyblion yn briodol. Mae hyn yn cynnig cyfleoedd addas i ddisgyblion fyfyrio ar eu dysgu yn ystod gweithgareddau. At ei gilydd, nid yw athrawon yn darparu adborth sy'n ddigon penodol nac yn ddigon heriol i gyfateb i allu'r disgyblion.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer yr ysgol sydd yn seiliedig ar ddatblygu lles disgyblion. Caiff ei chynorthwyo'n fedrus gan y dirprwy a'r arweinwyr canol ac mae ymdeimlad cryf o gydweithio fel tîm ar draws yr ysgol. Mae'r llywodraethwyr yn chwarae rôl ragweithiol ym mywyd a gwaith yr ysgol ac yn arddangos dealltwriaeth gadarn o gryfderau'r ysgol a'i blaenoriaethau ar gyfer gwella.

# Argymhellion

**A1** **Sicrhau lefel briodol o her i gefnogi'r disgyblion i ddatblygu eu medrau hyd eithaf eu gallu**

**A2** **Darparu adborth pwrpasol fel bod y disgyblion yn gwella eu gwaith yn amserol ac yn effeithiol**

# Beth sy'n digwydd nesaf

**Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.**



# Cyd-destun yr ysgol

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Y Felinheli |
| Awdurdod lleol | Cyngor Gwynedd |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 179 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 138 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 21 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.0%) | 3.3% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 16.1%) | 23.2% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 63.8% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | 01/09/2015 |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | 01/12/2014 |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 26/06/2023 |

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2023: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 29/08/2023

Sylwer, efallai na fydd y ffotograffau sy'n cael eu dangos yn rhai o'r ysgol sy'n destun yr adroddiad hwn.